Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Gwella gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru

Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd **2020–21**

Cynnwys

Rhagair	3
Ein sefydliad	7
Ymgysylltu â phobl	11
Bwrdd Cynghori Cenedlaethol	13
Gwasanaethau oedolion a phlant	15
Gwasanaethau gofal plant a chwarae	22
Gwasanaethau awdurdodau lleol	33
Atodiad	40

Sut i roi adborth am ofal cymdeithasol a gofal plant

Ein ffonio: 0300 7900 126

Anfon e-bost aton ni: AGC@llyw.cymru

Ysgrifennu aton ni:
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

arolygiaethgofal.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42969

ISBN digidol 978-1-80195-656-7

Rhagair

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2020-21 yn cydnabod pa mor eithriadol y mae eleni wedi bod i bob un ohonom. Mae wedi effeithio ar fywyd pawb.

Unwaith eto, rwy'n estyn fy nghydymdeimladau dwysaf i bawb sydd wedi colli aelod o'r teulu neu ffrind o ganlyniad i feirws COVID-19. Rwy'n cofio ac yn gweddïo am bob un ohonoch, ar yr adeg anodd hon.

Rwyf am gydnabod a thalu teyrnged i bawb sy'n gweithio ym meysydd gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru am eu hymroddiad i ofalu am bobl, a'u gwaith caled wrth fynd i'r afael â'r heriau niferus a wynebwyd ganddynt. Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn un eithriadol o anodd a llawn straen i bawb, ac mae'n parhau felly. Lle y gwelsom enghreifftiau o ofal gwael, rydym wedi cymryd camau; ond rydym hefyd wedi cael ein hysbrydoli gan lawer iawn o enghreifftiau o ofal ymroddgar, tosturiol ac anhunanol.

Erbyn mis Chwefror 2020:

- roeddem wedi cwblhau'r dasg anferth o ailgofrestru 1,700 o wasanaethau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gan gyflwyno modelau cofrestru, fframweithiau arolygu, prosesau a chanllawiau newydd er mwyn helpu i roi Deddf 2016 ar waith yn llwyddiannus
- roeddem wedi cyflwyno graddau newydd ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae
- roedd ein gwaith ar-lein a digidol yn datblygu'n gyflym
- roeddem wedi cwblhau ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Roeddem yn hyderus y byddai 2020 yn cynnig cyfle i ni gadarnhau ac ymgorffori ein ffyrdd newydd o weithio ac yna. Wedyn, ar 12 Mawrth, cawsom wybod am y tro cyntaf am achos a amheuwyd o COVID-19. Ar 16 Mawrth, cawsom gadarnhad am y tro cyntaf bod rhywun a oedd yn byw mewn cartref gofal wedi marw o'r feirws, ac erbyn 5pm y diwrnod hwnnw, roeddem wedi atal ein rhaglen arolygu arferol dros dro. Aethom ati i addasu ein prosesau yn gyflym er mwyn gallu parhau i roi sicrwydd am ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau; mae technoleg wedi ein galluogi i wneud hyn mewn modd mor ddiogel â phosibl. Gwnaethom weithio mewn ffordd gydgynhyrchiol gyda'r sector, gan gefnogi ein gilydd i ymateb i'r digwyddiadau digynsail a welwyd yn sgil y pandemig.

Ein prif blaenoriaeth oedd parhau i roi sicrwydd i'r cyhoedd ac i Weinidogion ynghylch diogelwch ac ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Roedd tair egwyddor allweddol wrth wraidd y penderfyniadau a wnaed gennym:

- canolbwyntio ein gweithgarwch lle roedd ei angen fwyaf er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gofal diogel – roedd hyn yn golygu canolbwyntio ar y meysydd hynny lle roeddem o'r farn bod y risg i ansawdd y gofal ar ei huchaf, a lle y gallem wneud y gwahaniaeth mwyaf
- cefnogi darparwyr drwy ystyried sut y gallem weithredu'n hyblyg ac yn gymesur
- cydymffurfio â'n dyletswydd i ofalu am ein cydweithwyr yn Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cwblhawyd y cwestau i'r marwolaethau 15 mlynedd yn ôl yng Nghartref Gofal Brithdir eleni hefyd, a arweiniodd at ymchwiliad gan yr heddlu, sef Ymgyrch Jasmine.

Mae gwrando eto ar yr amgylchiadau trasig sydd ynghlwm wrth y marwolaethau yn y cartref hwn wedi peri gofid a thristwch mawr i mi. Ar ran Arolygiaeth Gofal Cymru, hoffwn estyn fy nghydymdeimladau dwysaf i'r teuluoedd yn eu profedigaeth. Gwn nad oes dim a all wneud iawn am y golled y maent wedi'i dioddef, ond gobeithio bod y cwestau wedi rhoi'r penderfyniad a'r atebion y maent yn eu haeddu.

Rydym bob amser wedi rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn, ac mae'r egwyddor hon yn bwysicach nawr nag erioed. Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau diogelwch ac ansawdd y gwasanaethau a reoleiddir ac a arolygir gennym a helpu i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm staff a mynegi fy edmygedd ohonynt. Rwy'n hynod falch o'r ffordd y mae pawb wedi addasu ac yn parhau i roi sicrwydd bod safonau gofal yn cael eu cyrraedd. Mae eu hymroddiad a'u brwdfrydedd drwy gydol y flwyddyn hon wedi bod yn ysbrydoliaeth. Mae wedi bod yn flwyddyn heb ei hail, ond gyda chymorth y ddau Ddirprwy Brif Arolygydd, Margaret Rooney a Vicky Poole, yn ogystal â'n tîm uwch-reolwyr ymroddedig, mae wedi bod yn fraint aruthrol arwain Arolygiaeth Gofal Cymru drwy'r flwyddyn gythryblus hon.

Gillian Baranski
Prif Arolygydd, AGC

Adfyryrdodau

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un anodd a heriol iawn, ond mae hefyd wedi bod yn gyfnod o ysbrydoliaeth ac yn gyfle i fyfyrio ar wersi a dysgu ohonynt. Dyma rai o'n hadfyfyrdodau allweddol sydd wedi deillio o'n gwaith eleni:

1. Mae dewrder, arloesedd a gwydnwch y bobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae wedi bod yn anhygoel. Rhaid i ddarparwyr gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am eu cyfraniad parhaus a hollbwysig at y gwaith o ofalu am bobl a'u cefnogi.

2. Unwaith eto, cafodd cyd-ddibyniaeth y sector iechyd a gofal cymdeithasol ei hamlygu'n glir iawn. Mae'n hanfodol bod y bobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yn cael parch cydradd a thelerau ac amodau fel y rhai sy'n gweithio yn y GIG.

3. Dylid cydnabod a thrin darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol fel partneriaid mewn gofal. Yn ystod y pandemig, roedd gennym bryderon nad oedd hyn yn digwydd fel mater o drefn, yn enwedig mewn perthynas â phobl a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Caiff cleifion eu rhyddhau'n llwyddiannus drwy gyfathrebu cydlynus, cynllunio'r drefn ryddhau yn amserol a thrwy gael gwybodaeth fanwl ac amserol mewn perthynas â rhyddhau.

4. Rhaid i bawb sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol sicrhau y caiff hawliau dynol pobl eu parchu, a'u bod yn parhau i fod wrth wraidd y penderfyniadau a wneir. Rhaid i'r bobl sy'n cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a'u teuluoedd neu eu heiriolwyr, fod yn rhan o bob penderfyniad sy'n effeithio arnynt. Rhaid gwneud penderfyniadau ar sail yr unigolyn ac er ei fudd pennaf. Gwelsom enghreifftiau o benderfyniadau cyffredinol yn cael eu gwneud mewn perthynas â Ni Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol a gwahardd ymweliadau â phobl mewn cartrefi gofal ledled ardaloedd awdurdodau lleol cyfan pan oedd y canllawiau cenedlaethol yn galluogi ymweliadau ag asesiad risg i ddigwydd.

5. Taflodd cwestau Ymgyrch Jasmine oleuni ar yr effaith y mae arweinyddiaeth a rheolaeth wael yn ei chael ar ddiwylliant sefydliad ac, yn ei dro, yr effaith ar ddiogelwch a llesiant y bobl sy'n cael gwasanaeth. Mae diwylliant yn cynnwys gwerthoedd, traddodiadau a chredoau sefydliad, ac ymddygiad ac agweddau'r bobl ynddo. Arweiniodd diwylliant negyddol yng nghartref gofal Brithdir at amgylchedd o esgeulustod, camdriniaeth a thorri hawliau dynol pobl. Dylai pob sefydliad gofal cymdeithasol a gofal plant fod yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol er mwyn sicrhau y caiff gofal a chymorth o safon uchel, ddiogel a thrugarog eu cynnig.

6. Mae gweithio gyda phartneriaid a rhannu gwybodaeth â nhw wedi cefnogi pob un ohonom i gydlynu ymdrechion, deall blaenoriaethau ac ymateb yn effeithiol i sicrhau gwelliant. Mae cefnogi gwelliant hirdymor yn y sector gofal cymdeithasol a gofal plant yn gofyn am bartneriaethau effeithiol. Byddwn yn adeiladu ar ein partneriaethau cryfach er mwyn sicrhau bod cydweithio wrth wraidd y ffordd rydym yn gweithio.

7. Mae AGC wedi addasu i ffyrdd newydd ac arloesol o weithio gan ddefnyddio technoleg rithwir a gwasanaethau ar-lein, sy'n ein galluogi i weithio'n fwy hyblyg a chynhyrchiol ac yn lleihau'r baich ar y sector. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â darparwyr yn rhithwir fel rhan o'r broses gofrestru, arolygu a thrwy ddigwyddiadau ar raddfa fawr i ddarparwyr. Byddwn yn adeiladu ar y ffyrdd newydd hyn o ymgysylltu â darparwyr wrth i ni barhau i adolygu a gwella ein ffyrdd o weithio.

8. Cyflawnwyd y canlyniadau gorau i bobl pan aethom ati i weithio mewn ffordd gydgynhyrchiol â'n holl bartneriaid. Roedd y gwaith o ddatblygu canllawiau ar ymweld ar gyfer cartrefi gofal yn esiampl o hyn, gan ddwyn ynghyd wybodaeth a phrofiad ystod eang o randdeiliaid er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion cymhleth yn ymwneud â galluogi pobl i ailgysylltu â theulu a ffrindiau. Wrth i ni symud ymlaen i gynllunio ar gyfer adfer a'r tu hwnt i hynny, rhaid i'r dull gweithredu hwn barhau a chael ei atgyfnerthu ymhellach.

Mae'r pandemig wedi bod yn gyfnod trist a heriol yn ein bywydau, ond mae hefyd wedi rhoi'r cyfle i ni adeiladu ar gydnabyddiaeth ehangach y cyhoedd o bwysigrwydd a gwerth gwasanaethau gofal, effaith gofal o ansawdd da a'r gwahaniaeth y gall ei wneud. Mae gwasanaethau gofal yn bwysig i bawb a rhaid i ni gyd barhau i wneud yr hyn a allwn i sicrhau gwelliannau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hanfodol hyn ac yn gweithio ynddynt.

Ein sefydliad

Amdanom ni

Pwy ydym ni

Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sef rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant.

Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

Y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio

Y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ac yn eu harolygu:

- Gwasanaethau cartref gofal (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau eirioli
- Gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd

Cyfeiriwn at y rhain fel "gwasanaethau rheoleiddiedig".

Rydym hefyd yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Gwnawn hyn drwy gyfuniad o weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad. Rydym hefyd yn arolygu’r canlynol:

- Ysgolion preswyl
- Ysgolion arbennig preswyl (trefniadau llety am lai na 295 diwrnod)
- Colegau addysg bellach, sy'n lletya myfyrwyr o dan 18 oed
- Gwasanaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol.

Ein pwerau cyfreithiol

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae'r rhain i gyd yn rhoi'r pŵer i ni gofrestru ac arolygu'r gwasanaethau a restrir uchod.

Diogelu rhag gwanhau hawliau dynol pobl

Mae diogelu hawliau dynol pobl wedi bod yn bwysicach nag erioed yn ystod y pandemig COVID-19. Un o egwyddorion pwysig cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol yw y dylid gwneud pob ymdrech i gynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rydym wedi hyrwyddo pwysigrwydd sicrhau bod pobl a'u teuluoedd yn rhan o benderfyniadau am eu gofal drwy gydol y pandemig.

Gwelsom newid o'r egwyddorion 'llais a rheolaeth' sydd wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i egwyddorion 'gwneud i' bobl. Er i bob un ohonom wynebu cyfyngiadau ar ein bywydau bob dydd, roedd y sefyllfa hon yn waeth byth i bobl a oedd yn cael gofal a chymorth.

Yn gynnar yn ystod y pandemig, roedd dulliau gweithredu cyffredinol mewn perthynas â Ni Cheisier Dadebru Cardiopwlmonaidd yn destun pryder mawr; Gwnaethom gyhoeddi **datganiad** ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn condemnio'r ymarfer hwn. Gwnaethom hefyd hyrwyddo profion i bobl a oedd yn cael eu rhyddhau o ysbytai i gartrefi gofal.

Yn ei sesiwn friffio ar ofal cymdeithasol **'Cydraddoldeb a hawliau dynol mewn gofal preswyl yng Nghymru yn ystod coronafeirws'**, tynnodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sylw at yr hawliau dynol sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu tanseilio, megis:

- Erthygl 2: yr hawl i fywyd
- Erthygl 3: rhyddid rhag camdriniaeth
- Erthygl 5: hawl i ryddid
- Erthygl 8: hawl i fywyd preifat a theuluol

Gwyddom ei bod hi wedi bod yn adeg eithriadol o heriol i ddarparwyr gofal cymdeithasol ac rydym wedi ceisio eu cynorthwyo drwy adran Cwestiynau Cyffredin ein gwefan. Rydym wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf ynghylch pwysigrwydd dulliau seiliedig ar hawliau.

Er enghraifft, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i lunio canllawiau ar ymweld â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, wedi'u hategu gan egwyddorion moesegol a seiliedig ar hawliau. Gwnaethom hefyd bwysleisio'r angen i osgoi dulliau gweithredu cyffredinol, gan gydnabod, er enghraifft, efallai nad yw'r hyn sy'n briodol i oedolion sy'n byw mewn cartref gofal yr un peth i blant nac i bobl sy'n byw mewn tenantiaethau â chymorth. I'r perwyl hwn, gwnaethom hwyluso grŵp rhanddeiliaid allanol i roi cyngor ar ddatblygu'r canllawiau i ymwelwyr a'u rhoi ar waith.

Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom drefnu digwyddiad ar-lein i ddarparwyr a oedd yn canolbwyntio ar hawliau. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ei adroddiad a Gofal Cymdeithasol Cymru, a drafododd ei bapur ar 'Cydbwyso Risg, Hawliau a Chyfrifoldebau'. Gellir gwylio'r gweminar a'r cyflwyniadau yma. Canolbwyntiodd ein hail ddigwyddiad yn Ionawr 2021 ar ddiogelu, sy'n bwnc pwysig bob amser, ond yn arbennig yn ystod y pandemig pan fu'n rhaid cydbwyso'r angen i gynnal diogelwch a llesiant pobl â'u hawliau.

Gwnaethom barhau i fonitro'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid – gan gadarnhau bod awdurdodiadau'n cael eu ceisio ac ar waith lle bo angen; mae'r mater hwn yn un pwysig lle roedd angen i bobl â diffyg galluedd meddyliol hunanynysu. Gwnaethom rannu ein pryderon ynghylch asesu cyfyngiadau galluedd meddyliol pobl yn 'rhithwir' pan oedd y pandemig ar ei waethaf.

Agwedd bwysig ar gynnal hawliau dynol pobl yw sicrhau y gall pobl gyfathrebu yn Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith. Ym mis Ebrill 2020, gwnaethom ddechrau defnyddio fformat newydd ar gyfer ein hadroddiadau arolygu sy'n cynnwys barn glir ar ddechrau'r adroddiad ynghylch a yw'r gwasanaeth yn darparu 'cynnig rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Yn ogystal â rhoi gwybodaeth gliriach i'r cyhoedd, bydd y newid hwn yn ein galluogi i adrodd yn fwy systematig ar hyn.

Ymgysylltu â phobl

Ymgysylltu yn ystod y pandemig

Arloesi a chydweithio

Yn Gorffennaf 2020, gwnaethom gyhoeddi ein cynllun ymgysylltu, ac er na fu modd i ni roi llawer o'r camau gweithredu ar waith oherwydd y pandemig, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â'n rhanddeiliaid.

Bu rôl ein Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn hollbwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddarparwyr am y canllawiau newidiol, a gwnaethom weithio'n agos gyda chydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru yn hyn o beth. Gwnaethom hefyd weithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a phartneriaid i lunio cylchlythyr wythnosol i ddarparwyr gofal, gan ddwyn ynghyd ddiweddariadau a newyddion yr wythnos.

Drwy gyhoeddi datganiadau am ein dull o weithio, ynghyd â chwestiynau cyffredin wedi'u diweddaru'n rheolaidd, sicrhawyd **492,981** o ymweliadau â'n gwefan.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi dau ddatganiad ar y cyd ag AGC yn annog pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i leisio eu barn a rhannu arferion cadarnhaol ac unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch ansawdd y gofal. (**4 Mai 2020, 8 Mawrth 2021**)

Tynnodd y cyfyngiadau ar ein gwaith eleni hefyd sylw at y cyfyngiadau ar waith arolygu pan na allem 'groesi trothwyon' a siarad yn uniongyrchol â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal na phlant sy'n cael gwasanaethau gofal plant. Er i ni geisio dod o hyd i ffyrdd eraill o gael adborth, ni allai fyth fod cystal â siarad wyneb yn wyneb â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Wedi dweud hynny, mewn rhai amgylchiadau gwelsom fod siarad â phobl yn rhithwir wedi arwain at well ymgysylltu, er enghraifft pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi gofal i blant, rhieni plant mewn gofal dydd a staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth cartref.

Yn yr un modd, drwy ymgysylltu'n fwy rheolaidd â'r gwasanaethau drwy ein galwadau 'dal i fyny' a monitro, bu modd i ni feithrin cydberthnasau cefnogol gan gadw pobl yn ddiogel ar yr un pryd. Darparodd yr arolygwyr glust i wrando yn ogystal â gallu cyfeirio rheolwyr at gyngor a chanllawiau perthnasol.

Wrth gefnogi darparwyr gofal plant a chwarae, gwnaethom gynnal chwe digwyddiad ar-lein a chyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr gofal plant awdurdodau lleol a chyrff cynrychioliadol fel Cwlwm.

Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

Adfyfyrdod gan Dr Ruth Hussey

'Yn fy rôl fel Cadeirydd Bwrdd Cynghori Cenedlaethol AGC, rwy'n gyfrifol am arwain y Bwrdd wrth fonitro a chraffu ar waith AGC a chodi ymwybyddiaeth ohono. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant sy'n darparu llais arbenigol a darlun gwerthfawr i AGC o'r sectorau y mae AGC yn eu rheoleiddio a'u harolygu.

Pan gefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Bwrdd ar 1 Ionawr 2020, nid oedd effaith COVID-19 wedi dod i'r amlwg eto. Bu modd i'r Bwrdd, a arferai gyfarfod tair gwaith y flwyddyn yn swyddfeydd AGC, ddod ynghyd yn rhithwir i rannu syniadau, a thrafod sut y gall AGC chwarae ei rhan i wella gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd, rwyf wedi gweld sut mae profiad pob un aelod wedi cyfrannu at lais y grŵp cyfan. Bu hon yn flwyddyn eithriadol dros ben, yn enwedig i'r sectorau iechyd a gofal. Mae lleisiau ein haelodau wedi ein hatgoffa nid yn unig o'r pwysau ar wasanaethau a chymunedau ond o allu pobl i addasu o dan rai amgylchiadau anhygoel.

Ym mhob cyfarfod, clywsom gan aelodau unigol fel rhan o'r drafodaeth 'Lleisiau o'r Sector', gan roi'r cyfle i ni glywed diweddariadau yn ogystal â gofyn cwestiynau i AGC eu hystyried. Clywsom yn uniongyrchol am brofiadau'r aelodau yn ystod y pandemig fel pobl sy'n defnyddio ac yn darparu gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd wedi rhoi adborth ar ddull gweithredu ac egwyddorion AGC o ran ei ffordd o weithio yn ystod y pandemig, yn enwedig ymgysylltu â'r sector yn allanol a chydweithio fel sefydliad. Rydym wedi cael trafodaethau rhyfeddol am rôl AGC o ran gwella, sut y gallwn godi proffil AGC ac, yn wir, y sector gofal cymdeithasol, a sut y bydd AGC yn parhau i roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu aelodaeth y Bwrdd ac yn parhau i graffu ar waith AGC yn erbyn camau gweithredu ac uchelgeisiau'r Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025. Braint eithriadol yw gweithio gyda'r sector gofal ar adeg mor allweddol, ac edrychaf ymlaen at arwain cyfraniad parhaus a gwerthfawr y Bwrdd at waith AGC.

Dr Ruth Hussey, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

'Drwy glywed yn uniongyrchol gan y bobl sy'n defnyddio ac yn darparu'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu, rydym yn gallu dysgu sut mae gwasanaethau'n effeithio ar fywydau pobl ledled Cymru mewn gwirionedd. Rydym yn dod i'r gwaith bob dydd i sicrhau bod y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael gofal medrus, parchus, a thyner; ac nad oes neb yn cael gofal gwael nac yn cael ei gam-drin. Mae aelodau ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol yn gwneud yn siŵr ein bod yn canolbwyntio ar y pethau pwysig. Rydym yn ddiolchgar iawn am ymroddiad, gonestrwydd a chefnogaeth aelodau gwych ein Bwrdd!'.

Gillian Baranski, Prif Arolygydd, AGC

Gwasanaethau oedolion a phlant

Rhoi sicrwydd yn ystod pandemig COVID-19

Trosolwg

Pan gyflwynwyd cyfyngiadau symud yn y DU ar ddiwedd mis Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig COVID-19, ystyriodd AGC yr effaith bosibl ar y sector gofal. Roedd hi'n amlwg o'n dealltwriaeth o'r darlun a oedd yn dod i'r amlwg o Ewrop fod yr effaith ar bobl hŷn a'r gwasanaethau a oedd yn eu cynnal yn debygol o fod yn sylweddol.

Ystyriodd AGC y risgiau yr oedd ein harolygwyr yn eu peri i bobl drwy ymweld â gwasanaethau ar adeg pan nad oedd profion ar gael, ac o bosibl yn cario'r feirws i bobl agored i niwed, yn erbyn yr angen i oruchwylio gwasanaethau nad oeddent yn perfformio fel y byddem yn eu disgwyl.

Yn wyneb yr amgylchiadau newydd ac anodd hyn, gwnaethom ddewis defnyddio dull hyblyg o weithio. Gwnaethom gadw'r hawl i arolygu gwasanaethau yn unol â'n cyfrifoldebau statudol, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn rhannu data a gwybodaeth, gan ein galluogi i ymateb i faterion wrth iddynt godi. I ddechrau, gwnaethom ganolbwyntio ar feysydd lle roedd risgiau sylweddol i ddiogelwch a llesiant pobl. Wrth i ni symud i fisoedd yr haf gyda llai o frigiadau o achosion, gwnaethom ehangu cwmpas ein harolygiadau, gan barhau i ymdrin â risgiau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'n staff ein hunain mewn modd cytbwys.

Roeddem yn y sefyllfa unigryw o gael trosolwg o'r sector a chysylltiadau ag ef yn genedlaethol. Drwy hyn, bu modd i ni roi darlun parhaus o'r effaith ar y sector gofal a'r heriau yr oedd yn eu hwynebu wrth i'r pandemig ddatblygu.

Bu modd i ni godi materion a chyfrannu at ymatebion yn genedlaethol gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal ag ymgysylltu â'r awdurdod lleol a phartneriaid iechyd.

Hysbysiadau yn ymwneud â COVID-19

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau hysbysu'r rheoleiddiwr am ddigwyddiadau penodol, gan gynnwys brigiadau o achosion o glefydau heintus a marwolaethau pobl gan ddefnyddio eu gwasanaethau (cartrefi gofal). Defnyddir y wybodaeth i lywio ein harolygiadau a chamau gweithredu prydlon lle mae gennym bryderon.

Oherwydd y pandemig, gwelsom gynnydd sylweddol (41%) yn nifer yr hysbysiadau a gyflwynwyd o gymharu â 2019-20. Er enghraifft, mewn cartrefi gofal i oedolion, gwelsom gynnydd o 31% mewn hysbysiadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn ymwneud â brigiadau o achosion o heintiau a chynnydd mewn cyfraddau marwolaethau. Mewn ymateb, gwnaethom ddynodi tîm i weithio ar draws y maes arolygu a rheoli gwybodaeth i adolygu'r hysbysiadau'n ymwneud â brigiadau mewn achosion o COVID-19 a marwolaethau a llunio adroddiadau dyddiol ac wythnosol rheolaidd.

Cawson 7,623 o hysbysiadau o achosion COVID-19 mewn gwasanaeth – naill ai'n ymwneud â staff neu bobl sy'n derbyn y gwasanaeth. Cawsom 8,420 o hysbysiadau o farwolaethau, yr oedd 7,948 ohonynt yn ymwneud â gwasanaethau cartrefi gofal. Cadarnhawyd bod gan 1,399 (17.6%) o'r rhain COVID-19.

Gwnaethom rannu'r rhain â sefydliadau perthnasol er mwyn llywio gwaith cynllunio lleol a chenedlaethol ac ymatebion i frigiadau o'r haint a hyrwyddo goruchwyliaeth a chymorth i wasanaethau yn lleol.

Defnyddiwyd y wybodaeth a goladwyd ochr yn ochr ag ystadegau cenedlaethol i ddarparu data tryloyw i'r cyhoedd ynghylch y sefyllfa genedlaethol mewn perthynas ag achosion o COVID-19 a'r effaith ar y sector gofal.

Y dulliau a ddefnyddiwyd gan AGC i roi sicrwydd yn ystod y pandemig

		Technegau ar gyfer sicrwydd yn ystod y pandemig:			
		Galwadau Dal i Fyny	Galwadau Monitro	Arolygiadau	Gweithgareddau Sicrwydd Llwyr
Gwasanaethau Oedolion a Phlant	Gwasanaethau Cartref Gofal i Oedolion	7,174	1,818	178	9,170
	Gwasanaethau Cymorth Cartref	2,871	689	130	3,690
	Gwasanaethau Plant	913	427	44	1,384

O 30 Mawrth 2020 ymlaen, dechreuodd y tîm wneud galwadau ffôn bob wythnos i'r holl wasanaethau oedolion a phlant. Nod y galwadau hyn oedd deall sut yr oedd darparwyr yn ymdopi yn ystod y pandemig a chynnig cymorth, cyfeirio gwasanaethau at ffynonellau arweiniad a chyngor fel y bo'n briodol. Rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020, gwnaethom 10,958 o alwadau dal i fyny i wasanaethau oedolion a phlant ledled Cymru. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar y sefyllfa a oedd yn datblygu yn y sector gwasanaethau gofal, brigiadau o'r haint, y gallu i gael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol, effaith yr haint ar lefelau staffio, materion posibl fel y gallu i gael gafael ar feddyginiaeth a chyflenwadau bwyd.

Bu modd i ni ganolbwyntio ar wasanaethau lle roedd pryderon am ofal a chymorth y bobl a darparu cysylltiadau ag asiantaethau perthnasol i gefnogi'r gwasanaeth ac ystyried a oedd rheswm dros gynnal arolygiad am fod niwed posibl i'r bobl.

Drwy goladu'r wybodaeth hon, bu modd i AGC chwarae rôl weithgar wrth godi pryderon penodol â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac, yn fwy lleol, gyda chomisiynwyr gwasanaethau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, bu modd i ni godi problemau ar gyfer y sector o ran cael gafael ar ddigon o PPE yn gynnar yn y pandemig, ynghyd â materion yn ymwneud â rhyddhau cleifion o'r ysbyty, y gallu i weld meddyg teulu a gwasanaethau cymorth diwedd oes.

Ym mis Medi 2020, gwnaethom gyhoeddi **crynodeb o adborth** a'n canfyddiadau o'r galwadau dal i fyny â darparwyr gwasanaethau oedolion a phlant pan oedd argyfwng COVID-19 ar ei waethaf.

Ym mis Awst 2020, cafodd ein galwadau dal i fyny eu disodli â 'Galwadau monitro' wrth i'r pwysau ar y sectorau ddechrau llacio ar ddechrau'r haf. Ffocws y galwadau o hyd oedd meysydd allweddol fel y gallu i gael gafael ar PPE a chymorth gan asiantaethau eraill, er enghraifft gwasanaethau meddyg teulu a diwedd oes, ond gwnaethom hefyd gyflwyno elfennau a oedd yn ymwneud yn benodol â monitro materion rheoleiddiol. Gwnaed galwadau monitro bob mis, wedyn symudwyd i gyfnod estynedig yn ystod misoedd yr Hydref a'r Gaeaf. Rhwng mis Awst a mis Mawrth 2021, gwnaethom 2,934 o alwadau monitro i wasanaethau oedolion a phlant ledled Cymru.

Defnyddiwyd hyn ochr yn ochr â gwybodaeth ehangach am wasanaethau o berfformiad hanesyddol a gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau partner i lywio ein gweithgarwch arolygu.

Lle y bu methiannau rheoleiddiol blaenorol mewn gwasanaethau, gwnaethom ddefnyddio dull seiliedig ar risgiau o ofyn am dystiolaeth o gynnydd mewn perthynas â chydymffurfio â'r rheoliadau; yn ogystal, gwnaethom ofyn am gadarnhad gan asiantaethau eraill (gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd) am y cynnydd a wnaed neu bryderon am wasanaethau.

Yn yr adborth cynnar ar gartrefi gofal i blant, nodwyd cydberthynas well rhwng y plant a'r bobl ifanc a'r staff, ond roedd pryderon hefyd am y diffyg mynediad i deuluoedd ac addysg.

Mewn gwasanaethau i bobl hŷn, roedd pryderon am lefelau staffio is yn thema drwy gydol y flwyddyn. Ar y cyfan, cymerodd darparwyr gamau i sicrhau staff cyson a oedd yn meddu ar y sgiliau cywir i ofalu am bobl. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau o staff yn 'symud i mewn' i gartrefi gofal er mwyn cynnal y gwasanaeth.

Pan wnaethom siarad â phobl hŷn, gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn colli eu teuluoedd ac ymwelwyr ond bod y staff yn gwneud eu gorau i lenwi'r bwlch. Teimlai llawer yn bryderus ac yn ofnus am yr hyn a oedd yn digwydd y tu allan i'r cartref. Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym eu bod yn colli eu ffrindiau a'u bywyd cymdeithasol.

Arolygiadau

O ddechrau'r pandemig a'r cyfyngiadau symud cyntaf, gwnaethom gysylltu ein dull o ymdrin ag arolygiadau â lefel y rhybudd a oedd ar waith yng Nghymru. Pan oedd y cyfyngiadau ar eu lefel uchaf, gwnaethom benderfynu canolbwyntio ein harolygiadau ar y gwasanaethau yr oedd gennym bryderon sylweddol yn eu cylch mewn perthynas â diogelwch a llesiant y bobl. Gwnaethom gynnal asesiad risg cyn pob arolygiad a gwnaethom ganolbwyntio ar feysydd pryder allweddol yn ystod yr ymweliad arolygu. Y rhesymeg dros hyn oedd lleihau'r pwysau ar y sector gofal, galluogi gwasanaethau i ganolbwyntio eu hadnoddau ar y bobl y maent yn gofalu amdanynt a lleihau'r risg o haint yn sgil y cynnydd mewn ymwelwyr.

Math o Wasanaeth	Nifer yr Arolygiadau
Ysgol Breswyl	2
Gwasanaeth Cartref Gofal – Oedolion a Phlant	13
Gwasanaeth Cartref Gofal – Oedolion	165
Gwasanaeth Cartref Gofal – Plant	40
Gwasanaeth Cymorth Cartref	130
Canolfan Breswyl i Deuluoedd	2
Cyfanswm	352

Gwnaethom ddatblygu ffyrdd newydd o oruchwylio gwasanaethau, gan gynnwys:

- galwadau dal i fyny a monitro y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol yn yr adroddiad hwn;
- arolygiadau rhithwir, gan ddefnyddio technoleg i siarad â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu perthnasau a'r staff, yn ogystal â theithiau rhithwir o'r gwasanaeth;
- cydweithio â phartneriaid o feysydd gofal cymdeithasol, y GIG ac iechyd cyhoeddus i rannu gwybodaeth, canolbwyntio ein hadnoddau a blaenoriaethu'r gwasanaethau hynny lle roedd angen cynnal arolygiad ffisegol a/neu ymyrryd.

Er bod y defnydd o dechnoleg a galwadau ffôn wedi ein galluogi i gasglu adborth a gwybodaeth yn ystod cyfnod digynsail ac anodd, gwnaethom hefyd gydnabod cyfyngiadau hyn. Roedd hi'n haws i blant ac oedolion iau ymgysylltu ond roedd hi'n fwy anodd i bobl sy'n byw gyda dementia gyfathrebu â ni'n rhithwir.

Byddwn yn defnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod y pandemig i lywio a gwella ein ffyrdd o weithio.

Astudiaeth achos cartref gofal

"Gwnaeth perthynas gysylltu ag AGC am ei fod am ymweld â'i mam mewn cartref. Ni allai ei mam ddefnyddio pod ymwelwyr yn yr awyr agored ac roedd y cartref wedi gwrthod gadael iddi ymweld dan do am fod gan y cartref bolisi "dim ymweliadau" cyffredinol ar waith. Roedd y ferch wedi'i chynhyrfu'n aruthrol ac roedd hi'n fodlon cael prawf COVID-19 a gwisgo PPE, ond gwrthododd y cartref o hyd, er nad oedd brigiad o achosion yn y cartref. Ymyrrodd arolygydd AGC a chyfeiriodd y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol at ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hynny, caniataodd y cartref ymweliad a dywedodd y ferch ei bod ar ben ei digon, gan ddweud *"for the first time in a year I cried tears of joy rather than tears of sadness"* (llefais ddagrau o lawenydd yn lle tristwch am y tro cyntaf ers blwyddyn).

Arolygydd, AGC

Themâu diffyg cydymffurfio

Gwnaethom gyhoeddi hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth lle gwelsom fod methiannau mewn gwasanaethau yn effeithio ar ganlyniadau llesiant y bobl neu'n peri risg iddynt. Mae'r rhain ar gam cyntaf ein llwybr sicrhau gwelliant a gorfodi ac maent yn nodi'r methiannau rheoleiddiol i ddarparwr y gwasanaeth a'r camau y mae'n ofynnol iddo eu cymryd i wella'r gwasanaeth. Caiff y gwasanaethau hyn eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiad dilynol o fewn chwe mis er mwyn cadarnhau bod y camau gofynnol wedi'u cymryd.

Yn 2019-20, gwnaethom gyhoeddi 300 o hysbysiadau i gyfanswm o 109 o wasanaethau. Yn 2020-21, gwnaethom gyhoeddi 349 o hysbysiadau i gyfanswm o 83 o wasanaethau. Mae hyn yn dangos hyd a lled a natur ddifrifol methiannau'r gwasanaethau hyn.

Roedd y mathau o wasanaethau y cyhoeddwyd y rhain iddynt yn cynnwys:

- 57 gwasanaethau cartref gofal i oedolion;
- 11 gwasanaethau cartref gofal i blant;
- 14 gwasanaethau cymorth cartref; ac
- 1 canolfan breswyl i deuluoedd.

Yn ystod ton gyntaf y pandemig, gwnaethom fynd ar drywydd pob hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth heb ei gwblhau drwy gyflwyno cais am dystiolaeth o gynnydd. Parhaodd yr hysbysiadau heb eu cwblhau hyd nes y gallem fod yn fodlon bod tystiolaeth gadarn o welliant.

Pan wnaethom ddychwelyd i arolygu, roedd 65% o'r gwasanaethau wedi cymryd camau i wella. Lle roedd gwasanaethau wedi methu â chymryd camau i wella, gwnaethom gymryd camau gorfodi pellach fel yr amlinellir yn y tabl isod.

Hysbysiadau statudol a gyhoeddwyd: 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021

Hysbysiadau Gwelliant a Gyhoeddwyd	12
Hysbysiadau i osod amodau	20
Canslo'r unigolyn cyfrifol	2
Canslo'r gwasanaeth	1

Caiff ein gwaith ei lywio gan y wybodaeth a gawn drwy bryderon a digwyddiadau diogelu. Ar y cyfan, gwelsom gynnydd o 24% yn nifer y pryderon a godwyd â ni, o 1,736 i 2,151. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd o 83% yn nifer y pryderon a godwyd gan chwythwyr chwiban, o 463 yn 2019-20 i 848 yn 2020-21.

O ystyried y ffaith bod mwyafrif y pryderon yn y flwyddyn flaenorol wedi'u codi gan ymwelwyr (personol a phroffesiynol) â gwasanaethau, mae'n galonogol yn ystod cyfnod â llai o ymwelwyr â gwasanaethau fod y staff sy'n gweithio ynddynt wedi bod yn barod i godi pryderon. Ym mis Mawrth 2021, rydym wedi cyhoeddi **datganiad ar y cyd ag (AGIC)** ar bwysigrwydd codi llais er mwyn cadw pobl yn ddiogel. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi **datganiad ar y cyd** arall ar 4 Mai 2020.

Bydd yn bwysig i ni fonitro hyn yn ystod y misoedd i ddod ac annog pobl i godi pryderon er mwyn rhoi ffocws i'n gwaith arolygu.

Rydym yn cofnodi pryderon o dan y themâu a nodir yn ein fframwaith arolygu. Mewn gwasanaethau cartref gofal i oedolion, un newid amlwg mewn pryderon oedd y cynnydd mewn materion yn ymwneud ag arwain a rheoli gwasanaethau, gan gynyddu o 438 o bryderon yn 2019-20 i 735 yn 2020-21. Roedd hyn yn adlewyrchu pryderon chwythwyr chwiban am y ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu cynnal ond hefyd o ran y gallu i gael gafael ar PPE a chymorth.

Gwelwyd cynnydd yn ystod rhan olaf y flwyddyn o ran nifer y pryderon a godwyd gan berthnasau mewn perthynas â gallu ymweld ag aelodau'r teulu mewn cartrefi gofal.

Astudiaeth achos cartref gofal

"Roedd gan gartref gofal yn ardal Caerdydd faterion diffyg cydymffurfio ers mis Medi 2020 yn ymwneud â methiannau systemig yn y gwasanaeth. Cynhaliodd AGC dri arolygiad a chyhoeddodd bum hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Yn ein harolygiad diweddaraf, gwelsom fod y gwasanaeth wedi gweithio'n eithriadol o galed i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol a bod y trigolion yn ddiogel, yn cael gofal da ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol drwy gael gofal da. Dywedodd ein harolygydd ei bod fel petai wedi cerdded i mewn i gartref gwahanol gan fod yr awyrgylch wedi newid yn llwyr – roedd y staff yn cydweithio, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac roedd yr arferion wedi gwella'n sylweddol."

Arolygydd, AGC

Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Rhoi sicrwydd yn ystod pandemig COVID-19

Cyflwynwyd Datganiad Gwasanaeth Hunanasesu (SASS) 2020 i AGC yn fuan cyn pandemig COVID-19. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn darparu meincnod o'r byd gofal plant a chwarae cyn COVID-19.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd 3,966 o wasanaethau Gofal Plant a Chwarae wedi'u cofrestru ag AGC; roedd 2,025 o'r rhain yn warchodwyr plant ac roedd 1,941 yn wasanaethau gofal dydd i blant. Roedd hanner y gwasanaethau gofal dydd i blant yn rhai gofal dydd llawn, ac ychydig dros chwarter ohonynt yn rhai gofal dydd sesiynol; roedd y gweddill yn cynnwys gofal y tu allan i'r ysgol, darpariaeth chwarae mynediad agored a meithrinfeydd .

Tabl 1: Nifer y gwasanaethau ar 31 Mawrth 2020 yn ôl y math o wasanaeth ac is-fath

Math o Wasanaeth	Is-fath o Wasanaeth	Cyfanswm
Gwarchodwr Plant	Dim	2,025
Cyfanswm Gwarchodwyr Plant		2,025
Gofal Dydd Plant	Meithrinfa	20
	Gofal Dydd Llawn	970
	Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	41
	Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	385
	Gofal Dydd Sesiynol	525
Cyfanswm Gofal Dydd Plant		1,941
Cyfanswm Terfynol		3,966

Mae'r newidiadau yn nifer y gwasanaethau a'u math a'u capasiti dros gyfnod o ddwy flynedd o 31 Mawrth 2018 i 31 Mawrth 2020 yn dangos lleihad yn nifer y gwasanaethau, ynghyd â chynnydd yn nifer y lleoedd. Mae Tablau 2 a 3 isod yn rhoi crynodeb o'r canlyniadau. Roedd y cynnydd mwyaf yn nifer y gwasanaethau a gofrestrwyd mewn 'gofal dydd llawn' gyda 221 o wasanaethau ychwanegol (+30%), a oedd yn gyfwerth â 6,441 o leoedd ychwanegol (+21%) yn 2019-20 o gymharu â 2017-18.

I'r gwrthwyneb, bu lleihad yn nifer y gwasanaethau gwarchod plant, sef lleihad o 176 o wasanaethau (-8%), sy'n gyfwerth â 490 yn llai o leoedd.

Yn ogystal, bu lleihad o 170 (-24%) yn nifer y gwasanaethau gofal dydd sesiynol, sy'n gyfwerth â 3,818 yn llai o leoedd. At ei gilydd, bu lleihad o 4% yn nifer y gwasanaethau (-171 o wasanaethau), fodd bynnag, mae nifer y lleoedd wedi cynyddu ers 2017-18 (+1,260 o leoedd).

Tabl 2: nifer y gwasanaethau gofal plant a chwarae ar 31 Mawrth dros gyfnod o dair blynedd

Math o Wasanaeth	Is-fath o Wasanaeth	2017-18	2018-19	Newid mewn niferoedd 2017-18 i 2018-19	% y newid 2017-18 i 2018-19	2019-20	Newid mewn niferoedd 2018-19 i 2019-20	% y newid 2017-18 i 2019-20	Newid mewn niferoedd 2017-18 i 2019-20	% y newid o 2017-18 i 2019-20
Gofal Dydd Plant	Gofal Dydd Llawn	749	878	129	17	970	92	10	221	30
Gofal Dydd Plant	Gofal Dydd Sesiynol	695	603	-92	-13	525	-78	-13	-170	-24
Gofal Dydd Plant	Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	415	390	-25	-6	385	-5	-1	-30	-7
Gwarchodwr Plant	Dim	2,201	2,131	-70	-3	2,025	-106	-5	-176	-8
Gofal Dydd Plant	Meithrinfa	27	26	-1	-4	20	-6	-23	-7	-26
Gofal Dydd Plant	Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	50	45	-5	-10	41	-4	-9	-9	-18
Cyfanswm Terfynol		4,137	4,073	-64	-2	3,966	-107	-3	-171	-4

Tabl 3: nifer y lleoedd gofal plant a chwarae ar 31 Mawrth dros gyfnod o dair blynedd

Math o Wasanaeth	Is-fath o Wasanaeth	2017-18	2018-19	Newid mewn niferoedd 2017-18 i 2018-19	% y newid 2017-18 i 2018-19	2019-20	Newid mewn niferoedd 2018-19 i 2019-20	% y newid 2017-18 i 2019-20	Newid mewn niferoedd 2017-18 i 2019-20	% y newid o 2017-18 i 2019-20
Gofal Dydd Plant	Gofal Dydd Llawn	31,197	34,593	3,396	11	37,638	3,045	9	6,441	21
Gofal Dydd Plant	Gofal Dydd Sesiynol	15,584	13,611	-1,973	-13	11,766	-1,845	-14	-3,818	-24
Gofal Dydd Plant	Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	15,909	15,366	-543	-3	15,656	290	2	-253	-2
Gwarchodwr Plant	Dim	16,184	16,113	-71	0	15,694	-419	-3	-490	-3
Gofal Dydd Plant	Meithrinfa	657	636	-21	-3	546	-90	-14	-111	-17
Gofal Dydd Plant	Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	3,534	3,111	-423	-12	3,025	-86	-3	-509	-14
Cyfanswm Terfynol		83,065	83,430	365	-0	84,325	895	1	1,260	2

Tabl 4: Newid yn nifer y gwasanaethau yn ôl nifer y lleoedd dros gyfnod o dair blynedd

	Uchafswm Capasiti <=10	Uchafswm Capasiti >=10 <=30	Uchafswm Capasiti >30 <=50	Uchafswm Capasiti >50 <=70	Uchafswm Capasiti >70
2017-18 – data gwaelodlin					
Gofal Dydd Llawn	5	316	212	126	90
Gofal Dydd Sesiynol	24	604	62	4	1
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	4	183	163	42	23
Gwarchodwr Plant	2,180	21	0	0	0
Meithrinfa	5	17	4	0	1
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	5	6	9	7	23
2018-19 – newid o 2017-18					
Gofal Dydd Llawn	1	103	17	2	6
Gofal Dydd Sesiynol	-4	-78	-9	-1	0
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	-1	-26	0	3	-1
Gwarchodwr Plant	-75	5	0	0	0
Meithrinfa	0	-1	0	0	0
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	0	-1	-2	0	-2
2019-20 – newid o 2017-18					
Gofal Dydd Llawn	2	169	31	2	17
Gofal Dydd Sesiynol	-7	-145	-15	-2	-1
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	-2	-38	0	10	0
Gwarchodwr Plant	-184	8	0	0	0
Meithrinfa	-2	-4	-2	0	1
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	-1	-2	-4	0	-2

I grynhoi, yn ystod y cyfnod rhwng 2017-18 a 2019-20, bu cynnydd cymharol mewn lleoedd yn y gwasanaethau hynny ag uchafswm capasiti o fwy na 10 lle. Hefyd, bu lleihad yn nifer y gwasanaethau ag uchafswm capasiti o lai na 10 – gwarchodwyr plant gan mwyaf.

Effaith y pandemig

Arhosodd gwasanaethau gofal plant ar agor drwy gydol y pandemig. I ddechrau, canolbwyntiwyd y cymorth ar blant agored i niwed a phlant o deuluoedd gweithwyr hanfodol. Bu ymateb y sector yn gadarnhaol a phroffesiynol dros ben, gan ddangos ymrwymiad i blant a theuluoedd. Pan oedd y pandemig ar ei waethaf, caeodd bron hanner y ddarpariaeth a oedd wedi'i chofrestru ag AGC dros dro. Y prif resymau dros hyn oedd nifer annigonol o blant yn mynychu'r gwasanaeth neu nifer annigonol o staff. Roedd hyn yn adlewyrchu effaith y pandemig, yn hytrach na phenderfyniad gan y darparwyr i dynnu eu cymorth yn ôl i deuluoedd.

Yn ystod y flwyddyn, cawsom 2,267 o hysbysiadau o ddarparwyr yn cau dros dro oherwydd COVID-19 a chyfanswm o 840 o hysbysiadau o COVID-19 mewn gwasanaeth - a oedd naill ai'n gysylltiedig â'r plant neu'r staff. Pan oedd ton gyntaf y pandemig ar ei hanterth ym mis Mehefin 2020, rhoddodd bron hanner yr holl wasanaethau (1,731 sy'n gyfwerth â 47% o'r holl wasanaethau) wybod i AGC eu bod wedi cau dros dro (gweler siart isod). Ar yr adeg hon, roedd 57% o'r capasiti ar gau.



Rhoi sicrwydd yn ystod y pandemig

		Technegau ar gyfer sicrwydd yn ystod y pandemig:			
		Galwadau Dal i Fyny	Galwadau Monitro	Arolygiadau	Gweithgareddau Sicrwydd Llwyr
Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae	Gwarchodwr Plant	1,322	703	27	2,052
	Gofal Dydd Plant	974	602	66	1,642

Parhaodd AGC i arolygu gwasanaethau gofal plant a chwarae drwy gydol y pandemig, lle roedd gennym bryderon sylweddol ynghylch diogelwch a llesiant y plant. Gwnaethom ddwysau ein gwaith monitro gwasanaethau mewn mannau eraill, gan ddefnyddio galwadau dal i fyny, galwadau monitro ac arolygiadau rhithwir i ddarparu rhywfaint o sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch y gwasanaethau hynny a oedd wedi aros ar agor. Defnyddiwyd galwadau dal i fyny yn ystod camau cynnar y pandemig. Roeddent yn gryno ac wedi'u dylunio i gadarnhau amgylchiadau'r gwasanaethau. Cafodd galwadau monitro hwy a mwy treiddgar eu datblygu a'u defnyddio wrth i'r pandemig ddatblygu. Lle y gwnaethom arolygu, cafodd yr amser a dreuliwyd ar y safle ei gadw i isafswm ac, o ganlyniad, ni chafodd pob un o'n pedair thema arolygu ei harchwilio'n fanwl o reidrwydd. Gwnaethom ohirio'r graddau dros dro am y rheswm hwn. Caiff hyn ei adolygu'n gyson a byddwn yn dechrau dyfarnu graddau eto pa fydd y fethodoleg arolygu lawn yn cael ei chymhwyso fel mater o drefn.

Gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth o'n cyswllt â darparwyr, ynghyd â phryderon a godwyd â ni, i'n helpu i benderfynu ble y gallai fod angen i ni gynnal arolygiad ar y safle. Gwnaethom hefyd fonitro'r broses o lacio rhai elfennau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Llywodraeth Cymru a benderfynodd y dylid llacio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gydag awdurdodau lleol yn gyfrifol am gymeradwyo ceisiadau gan ddarparwyr. Rôl AGC oedd coladu a monitro'r ceisiadau a'r gwrthodiadau. Yn ogystal, gwnaethom rannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol am y gwasanaethau hynny a oedd yn destun camau gorfodi lle na ddylid cymeradwyo llacio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Cawsom wybod am gyfanswm o 190 o gymeradwyaethau mewn perthynas â llacio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yr oedd bron pob un ohonynt yn ymwneud â gofal dydd.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r darparwyr yn gwerthfawrogi'r cyswllt ag AGC. Bu modd i ni gael rhywfaint o sicrwydd ynghylch yr ymateb i'r pandemig drwy ofyn am gydymffurfiaeth â'r canllawiau ar fesurau rhagweithiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar yr un pryd, gwnaethom archwilio nifer o gwestiynau a oedd yn gysylltiedig ag arwain a rheoli a'r sefyllfa staffio ar gyfer pob gwasanaeth y gwnaethom ei ffonio. Lle na chawsom sicrwydd drwy'r hyn a glywsom, cynhaliwyd ymchwiliad pellach, gan gynnwys gweithgarwch arolygu rhithwir neu ar y safle.

Y materion mwyaf cyffredin a godwyd gan ddarparwyr oedd pryderon am gynaliadwyedd eu gwasanaeth, ynghyd ag ymholiadau am y trefniadau ar gyfer cymorth ariannol ac ymarferol ar adeg hynod o heriol. Gwnaethom ateb ymholiadau ble bynnag y bo'n bosibl, ond bu'n rhaid i ni gyfeirio darparwyr at ffynonellau pellach o wybodaeth a chyngor gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llawer o'r cwestiynau.

Partneriaeth a chydweithio

Gwnaethom gynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn ystod y pandemig; cafodd sefydliadau rhanddeiliaid eu cynrychioli drwy Cwlwm; a polisi Llywodraeth Cymru. Drwy gyfarfodydd rheolaidd â phawb dan sylw, gwnaethom weithio'n galed i ddatrys problemau, cydlynu ein hymdrechion ac unioni ein cyfathrebiadau â'r sector. Roedd hi'n ddealladwy bod rhai darparwyr yn teimlo'n rhwystredig yn sgil ein hanallu, ar y dechrau, i ateb ymholiadau yn ymwneud â chymorth ariannol neu'r canllawiau ar fesurau rhagweithiol. Er mai materion i Lywodraeth Cymru, nid AGC yw'r rhain, wrth i'r pandemig ddatblygu, gwnaethom wella ein gallu i ganfod neu gyfeirio pobl at ffynonellau gwybodaeth ac atebion i'w hymholiadau.

Arolygiadau

Gwnaethom gysylltu ein dull o ymdrin ag arolygiadau â lefel y rhybudd a oedd ar waith yng Nghymru. Pan oedd y cyfyngiadau ar eu lefel uchaf, cafodd ein harolygiadau eu cyfyngu i'r lleoliadau lle roedd gennym bryderon sylweddol ynghylch diogelwch a llesiant y plant.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio, gwnaethom gynyddu nifer yr arolygiadau i gynnwys y gwasanaethau hynny y canfuwyd nad oeddent yn cydymffurfio â'r rheoliadau yn eu harolygiad diwethaf; a oedd newydd gofrestru, neu lle roedd angen cynnal arolygiad ers tro.

I'r rhan fwyaf, roedd y pryderon a godwyd yn ystod y pandemig yn debyg i'r rhai a gawn ar adegau eraill. Fodd bynnag, codwyd pryderon penodol ynghylch darparwyr nad oeddent yn dilyn y canllawiau ar fesurau ataliol, neu ddiffyg lefelau staffio digonol mewn gwasanaethau a oedd wedi aros ar agor yn ystod y pandemig. Ym mhob enghraifft, gwnaethom ymchwilio ymhellach a gofyn am sicrwydd ynghylch diogelwch y gwasanaeth i'r plant. Yn ystod y pandemig, cawsom wybod am bedwar achos ar wahân lle roedd plant wedi gadael y gwasanaeth heb i neb sylwi. Mae hyn yn fwy na'r arfer. Mewn tair o'r enghreifftiau, gwnaeth aelod o'r cyhoedd ddychwelyd y plentyn coll, ac yn y bedwaredd enghraifft, sylwodd y staff yn gyflym fod y plentyn ar goll ac aethant i'w nôl ymhen ychydig funudau. Ym mhob enghraifft, aethom ar drywydd yr achos drwy gynnal arolygiad yn ogystal ag ystyried a oedd ffactorau cyffredin ynghlwm. Gwall dynol oedd y prif ffactor ym mhob enghraifft. Yn ogystal, oherwydd y pandemig, roedd llai o blant na'r arfer yn mynychu pob gwasanaeth.

Nid yw'n syndod, o gofio bod llawer o wasanaethau wedi cau dros dro, bod nifer y pryderon a gafwyd (324) wedi lleihau ychydig dros chwarter o gymharu â 2019-20. Roedd mwyafrif y pryderon (156) yn ymwneud â'r gwaith o arwain a rheoli'r gwasanaeth, a'r categori uchaf nesaf oedd pryderon yn ymwneud â gofal a datblygiad y plant. Mae'r patrwm hwn yr un fath â 2019-20. Roedd y mwyafrif o'r pryderon yn ymwneud ag arwain a rheoli, ac nid yw hyn yn annisgwyl gan mai dyma'r categori sy'n cwmpasu pryderon am drefniadau staffio, gan gynnwys, er enghraifft, a oedd digon o staff â chymwysterau priodol ar ddyletswydd. Roedd y nifer mwyaf o bryderon yn ymwneud â gwasanaethau Gofal Dydd Llawn, gyda'r nifer uchaf nesaf yn ymwneud â gwarchodwyr plant. Mae'r patrwm hwn yr un fath â 2019-20. Cafodd y rhan fwyaf o bryderon eu codi gan aelodau'r cyhoedd, gyda'r lleiafrif (48) yn dod gan aelodau o staff. Unwaith eto, mae'r ffigurau hyn yn debyg i rai'r 2019-20.

Sicrhau gwelliant

Yn ystod 2020-21, gwelsom nad oedd 19 o wasanaethau (15 gofal dydd a 4 gwarchodwr plant) yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a wnaethom gyhoeddi 47 o hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth. Roedd y lefel hon o weithgarwch yn llai na 2019-20 ac, wrth gwrs, mae'n adlewyrchu'r ffaith bod llawer o'r gwasanaethau wedi cau dros dro a hefyd y lleihad yn nifer yr arolygiadau. Cafwyd bod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi gwneud rhai gwelliannau pan wnaethom ddychwelyd iddynt.

Astudiaeth achos enghreifftiol

"Cymerwyd gwasanaeth gofal plant drosodd gan berchenogion newydd a gofrestrodd ag AGC. Nodwyd nifer o faterion ac roedd hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth wedi'u cyhoeddi yn dilyn yr arolygiad diwethaf o dan y perchenogion blaenorol. Ar y cyfan, roedd y staff yn ddigalon ac yn nerfus iawn am y broses arolygu. Roedd y perchenogion newydd wedi cael rhai problemau gyda staff a oedd yn amharod i ddilyn systemau a gweithdrefnau newydd.

Cynhaliwyd arolygiad rhithwir o ganlyniad i bryder. Tynnodd y pryder a'r arolygiad deilliannol sylw at nifer o broblemau'n ymwneud â staff nad oeddent yn dilyn y gweithdrefnau newydd a roddwyd ar waith gan y perchenogion newydd yn gyson.Trafodwyd y rhain â'r staff yn ystod cyfarfodydd rhithwir ac roedd y canlyniad yn gadarnhaol. Ar y cyfan, roedd yn arolygiad cadarnhaol a dysgwyd gwersi o'r pryder a'r broses arolygu.

Arolygydd, AGC

Anfonodd yr unigolyn cyfrifol e-bost i AGC ar ôl i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi:

'Mae popeth yn mynd yn dda iawn yn y meithrinfeydd, roedd yr arolygiad yn hwb da yr oedd ei angen ar bawb ac mae hynny i'w weld yn amlwg. Mae pawb yn dod at ei gilydd ac yn glynu wrth y systemau newydd sydd ar waith'.

Astudiaeth achos enghreifftiol

"Cawsom hysbysiad gan feithrinfa yn dweud wrthym fod plentyn wedi gadael safle heb i neb sylwi. Penderfynwyd bod angen arolygu'r gwasanaeth ar unwaith. Gwnaeth tîm rheoli'r feithrinfa gydweithredu'n dda ac roedd yn deall difrifoldeb y sefyllfa ac, o ganlyniad, cymerodd y rheolwr gamau disgyblu. Yn ystod yr arolygiad, daeth i'r amlwg bod yr asesiadau risg yn wael. Nid oedd y gatiau mewnol nac allanol wedi'u cloi a gallai'r plant adael y safle heb i neb sylwi yn hawdd. Cyhoeddwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob gât gael ei chloi yn ystod oriau gweithredol er mwyn atal digwydd o'r fath rhag digwydd eto. Yn ystod y cyfarfod adborth, dywedodd arweinydd y lleoliad ei fod wedi adolygu'r prosesau, bod pob gât yn cael ei chadw dan glo, a bod y plant wedi elwa ar yr arolygiad."

Arolygydd, AGC

Addasu ein dull o gofrestru

Ar ddechrau'r pandemig, gwnaethom gydnabod yr angen cynyddol am gapasiti ychwanegol yn y sector gofal cymdeithasol. Mewn ymateb i hyn, gwnaeth Tîm Cofrestru AGC flaenoriaethu unrhyw geisiadau i gofrestru neu amrywio, a ddaeth â chapasiti ychwanegol i'r sector. Gwnaethom rannu gwybodaeth am gapasiti i gofrestru â thîm Arolygu Awdurdod Lleol AGC yn wythnosol, gan gynorthwyo awdurdodau lleol gyda'u trefniadau comisiynu.

Yn sgil cau llawer o wasanaethau gofal plant a chwarae dros dro, ni fu modd i bob gweithiwr allweddol gael gofal plant. Gwnaethom weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau gofal dydd a sefydlwyd i ofalu am blant gweithwyr allweddol yn cael eu cofrestru'n gyflym, fel bod modd i weithwyr allweddol fanteisio ar ddarpariaeth gofal plant lleol a pharhau i weithio.

Gwnaethom hefyd addasu rhai o'n prosesau i ddileu unrhyw rwystrau i gofrestru a achoswyd gan y pandemig, megis:

- galluogi ymgeiswyr i hunanddatgan unrhyw gyflyrau meddygol a gwiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn lleihau'r baich ar y GIG ac awdurdodau lleol;
- cynnal pob ymweliad safle yn rhithwir, ar wahân i safleoedd gwag;
- cynnal pob cyfweliad cofrestru yn rhithwir; ac
- ymgymryd â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhithwir.

Mae pob gwasanaeth sydd wedi'i gofrestru gan ddefnyddio prosesau addasedig wedi'i nodi ar ein system TG er mwyn sicrhau y gallwn ymchwilio i unrhyw feysydd a nodwyd yn ystod y broses arolygu.

Er na fyddwn yn cadw'r holl brosesau addasedig yn yr hirdymor, rydym wedi dysgu y gallwn gyflawni'r un lefel o sicrwydd ag a gafwyd cyn y pandemig, gan sicrhau hefyd fod y broses gofrestru yn llai beichus i ymgeiswyr.

Pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru eithriad dros dro rhag cofrestru ar gyfer gwasanaethau a sefydlwyd i ymateb i'r pandemig, gwnaeth y Tîm Cofrestru AGC ddyfeisio a chynnal system hysbysu i ddarparwyr.

Lle y gwelsom fod gwasanaethau'n gweithredu heb gofrestriad, gwnaethom weithio ar draws y Tîm Cofrestru a Gorfodi AGC i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi'r gorau i weithredu neu'n gwneud cais i gofrestru.

Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Rhoi sicrwydd yn ystod pandemig COVID-19

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arolygu arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi 2020 er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut oedd eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Canolbwyntiodd ein gwiriadau sicrwydd ar ddiogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny.

Er mwyn rhoi sicrwydd i bobl Cymru, gwnaethom gychwyn rhaglen lawn o wiriadau sicrwydd ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Lle y gwnaethom nodi risgiau difrifol neu sylweddol i ganlyniadau ar gyfer pobl, gwnaethom ymgymryd â gweithgarwch arolygu dwys.

Bu effaith COVID-19 ar wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn eithriadol o heriol, gydag awdurdodau lleol yn gweithio o dan amgylchiadau digynsail. Fodd bynnag, yng nghanol y cythrwfl, clywsom am gryfder cyfunol gweithio mewn partneriaeth. Clywsom am anhunanoldeb staff yn gweithio ar bob lefel ar draws pob awdurdod lleol, gydag asiantaethau partner, gan ddod ynghyd i gyflwyno gwasanaethau rheng flaen â blaenoriaeth o dan amgylchiadau y gellir ond eu disgrifio'n ddi-ildio.

Bu'n rhaid i staff a oedd yn gweithio mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol, a'u cydweithwyr ehangach, ymgymryd â rolau estynedig fel dosbarthu PPE a sicrhau bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith i ddiogelu staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mewn rhai awdurdodau lleol, cafodd y meysydd gwaith newydd hyn eu hehangu i gynnwys dosbarthu bwyd, cydlynu'r broses tracio ac olrhain a brechu'r gweithlu. Ymatebodd y rheolwyr a'r staff yn hyblyg i fodloni'r gofynion ychwanegol hyn.

Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol bod digon o adnodd ar gael i alluogi gwasanaethau i adfer a gwella'n llwyr. Rhaid i'r adnodd fod yn hirdymor er mwyn i awdurdodau lleol allu manteisio ar gyfleoedd i arloesi ac ailffurfio gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth sydd wedi newid, ac a fydd yn parhau i newid, o ganlyniad i'r pandemig.

Mae pob awdurdod lleol wedi parhau i gynnal ymweliadau wyneb yn wyneb â'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf. Roeddent yn arloesol wrth addasu i gyfyngiadau COVID-19, fel ymweld "drwy'r ffenestr" a darparu gweithgareddau awyr agored er mwyn i bobl gael cyswllt â gweithwyr proffesiynol. Drwy wneud defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol, llwyddwyd i barhau i gynnal cyfarfodydd amlasiantaethol statudol, fel cynadleddau amddiffyn plant ac oedolion. Darparodd llawer o awdurdodau lleol ddyfeisiau i bobl i'w galluogi i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'u teuluoedd a gwasanaethau. Gwelsom lawer o enghreifftiau cadarnhaol o'r defnydd o dechnoleg ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau er mwyn helpu i leihau unigrwydd.

Serch hynny, gwelwyd effaith andwyol ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gyda'r effaith ar ofalwyr di-dâl yn arwain at rai trefniadau gofal yn chwalu. Yn sgil gohirio gwasanaethau a chynnydd yn y galw, bu'n rhaid i lawer o bobl aros yn hwy am y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt. I blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal, mae sefydlogrwydd wedi bod yn uchel ond nid yw'r defnydd cynyddol o gyswllt ar-lein â phlant a theuluoedd yn disodli cyswllt wyneb yn wyneb.

Gwelsom drefniadau gweithio mewn partneriaeth cryfach yn datblygu ym mhob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i bob partner fanteisio ar y dysgu hwn wrth i ni ailffurfio gofal cymdeithasol.

"Clywsom mewn un awdurdod lleol am y cymorth a roddwyd i ofalwraig a'i gŵr. Roedd yr ofalwraig dan bwysau sylweddol oherwydd iechyd meddwl gwael ei gŵr ond gwnaeth y gweithwyr cymdeithasol gydnabod y pwysau hynny a'r ffaith bod angen cyfnod o seibiant arni. Nid oedd y pâr wedi treulio noson ar wahân yn ystod 30 mlynedd o briodas ond cafodd y profiad ei reoli'n ofalus ac yn fedrus. Gwnaeth y cyfnod seibiant wella iechyd meddwl y person a dywedodd yr ofalwraig fod yr help a gafodd yn ardderchog."

Arolygydd, AGC

"Er gwaetha'r heriau, llwyddodd un awdurdod lleol i recriwtio 13 o ofalwyr maeth ac roedd 19 cais arall yn yr arfaeth. Defnyddiodd y tîm maethu amrywiaeth o fentrau megis y cyfryngau cymdeithasol, y radio a'r teledu i recriwtio. Roedd paneli rhithwir, hyfforddiant a threfniadau goruchwylio i gyd wedi helpu i osgoi oedi wrth sicrhau penodiadau ar gyfer y gwasanaeth hanfodol hwn."

Arolygydd, AGC

Dulliau o roi sicrwydd yn ystod y pandemig

Canolbwyntiodd ein rhaglen o wiriadau sicrwydd ar ddau gwestiwn allweddol;

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Diben y gwiriadau sicrwydd oedd gweld pa mor dda y gwnaeth gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol barhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gwnaethom gofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, a Llesiant.

Yr hyn a ganfuom

Dangosodd canfyddiadau ein gwiriadau sicrwydd a'n harolygiadau yn ystod 2020-21 fod lleisiau pobl yn cael eu clywed, gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau. Gwelsom fod awdurdodau lleol yn ymgorffori dull gweithredu yn seiliedig ar gryfderau. Roedd hyn yn cynnwys dulliau ataliol amlasiantaethol wrth y "drws ffrynt" ac ymatebion amserol a thrwyadl i atgyfeiriadau diogelu.

Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw, gwelsom fod diogelwch a llesiant pobl wedi cael blaenoriaeth yn ystod y pandemig. Gwelsom fod staff awdurdodau lleol yn ymrwymedig i wneud mwy na'r disgwyl i gefnogi pobl.

Roedd lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel yn flaenoriaeth i bob awdurdod lleol yr ymwelwyd ag ef. Dangosodd ein canfyddiadau cynnar lle roedd strategaethau system gyfan clir yn bodoli; lle roedd pawb yn anelu at wella (yn hytrach na bwrw targedau ariannol), cyflawnwyd gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Roedd cyfraddau recriwtio a chadw ymarferwyr â chymwysterau addas yn broblem i leiafrif sylweddol o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw. Gwelsom fod newid cyson mewn gweithwyr wedi cael effaith negyddol ar y gallu i feithrin cydberthnasau â phobl ac ennyn eu hymddiriedaeth, ac ar forâl staff. Roedd hyn hefyd wedi arwain at oblygiadau ariannol i awdurdodau lleol o ran costau trwm staff asiantaeth.

Mewn rhai awdurdodau lleol, gallai partneriaethau fod wedi gweithio'n well ar lefel strategol i gyflawni dull mwy integredig a chynaliadwy o hyrwyddo annibyniaeth a llesiant. Roedd hyn yn fwyaf amlwg mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Gwelsom y bu'n rhaid lleihau rhai gwasanaethau yn ystod y pandemig. O ganlyniad, roedd llawer o bobl yn aros am y gofal a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â chymorth yn y cartref a gwasanaethau ail-alluogi ac mae wedi cael effaith fwyfwy negyddol ar ofalwyr di-dâl. Er y gwelsom ymarfer arloesol mewn ymateb i anghenion gofalwyr mewn rhai meysydd, parhaodd asesiadau a chymorth i ofalwyr yn faes i'w wella yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw.

Gwnaethom nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth ym mhob un o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw. Byddwn yn adolygu cynnydd y rhain drwy waith gwerthuso, adolygu ac ail-arolygu perfformiad dilynol. Byddwn yn llunio trosolwg o'n canfyddiadau pan fydd pob gwiriad sicrwydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2021.

Astudiaeth achos enghreifftiol

"Mewn un awdurdod lleol, mae'r ansawdd newidiol mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant wedi bod yn destun pryder i AGC ers tro. Yn aml, roedd gwelliannau cyflym mewn rhannau o'r gwasanaeth yn mynd law yn llaw â dirywiad mewn rhannau eraill. Nid oedd y canlyniadau i blant yn gyson dda ac nid oedd y plant yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt ac yr oedd hawl ganddynt i'w ddisgwyl.

Cyfarfu AGC ag arweinwyr y cyngor i'w gwneud yn ymwybodol o ddifrifoldeb y methiannau mewn ymarfer gweithredol a goruchwyliaeth y rheolwyr.

Drwy'r gwaith arolygu a monitro manwl a wnaed gan AGC yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, bu modd i ni fod yn benodol iawn o ran y materion gofal cymdeithasol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Gwnaeth ein cyfarfodydd rhannu gwybodaeth rhanbarthol rheolaidd ag Archwilio Cymru ddarparu cyd-destun pwysig a'n helpu i ddeall cefndir yr awdurdod lleol ac, o ganlyniad, helpu i lywio ein dull gweithredu.

Cafwyd cymorth hefyd gan y bwrdd diogelu rhanbarthol a ddarparodd archwiliad annibynnol ychwanegol o'r ffeiliau achos a oedd yn nodi meysydd i'w gwella.

Gwnaeth camau pendant y Prif Swyddog Gweithredol a'r cymorth proffesiynol a oedd ar gael gan awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth roi'r hyder i AGC oedi unrhyw arolygiadau pellach di-oed. Nododd ein hymweliad monitro diweddaraf welliant parhaus yn yr awdurdod lleol hwn."

Arolygydd, AGC

Ymgyrch Jasmine

Ymchwiliad hanesyddol gan Heddlu Gwent i honiadau o esgeulustod mewn nifer o gartrefi nyrsio yn Ne-ddwyrain Cymru rhwng 2005 a 2013 oedd Ymgyrch Jasmine. Dechreuodd o ganlyniad i glwstwr o farwolaethau mewn cartrefi gofal yng Ngwent a oedd yn gysylltiedig â briwiau pwyso.

Bu'n destun adolygiad annibynnol gan Margaret Flynn, a gyhoeddodd ei hadroddiad, **Chwilio am Atebolrwydd: Adolygiad o esgeuluso pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a ymchwiliwyd fel Ymgyrch Jasmine**, ym mis Mai 2015. Gwnaed cyfanswm o 12 o argymhellion, gan gynnwys y dylid cynnal cwestau.

Ym mis Ionawr 2021, cychwynnodd cwestau i farwolaethau saith person oedd yn byw yng nghartref gofal Brithdir. Archwiliodd y Crwner y gofal yn y cartref yn ogystal â rôl asiantaethau'r wladwriaeth wrth oruchwylio a rheoleiddio'r cartref gofal. Roedd hyn yn cynnwys Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (y sefydliad a'n rhagflaenodd), Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili ar y pryd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Roedd y cwestau hyn yn eithriadol o bwysig, yn enwedig i deuluoedd y bobl a fu farw. Rydym yn cydnabod y boen a'r cynnwrf achoswyd i deuluoedd y rhai a fu farw a'u rhwystredigaeth ddealladwy o ran yr amser a gymerodd i'r materion hyn gael eu harchwilio'n gyhoeddus.

Daeth y Crwner i'r casgliad mai esgeulustod a gyfrannodd at farwolaethau'r pum person.

Roedd yn feirniadol o fethiannau staff cymwys, perchennog a rheolwyr cartref gofal Brithdir. Disgrifiodd y dystiolaeth ddiwylliant yn y cartref gofal lle roedd y trigolion yn cael eu 'storio' a'u 'dad-ddyneiddio', lle nad oedd hyd yn oed tasgau sylfaenol fel darparu bwyd a hylif yn cael eu cynnal i'r safonau gofynnol.

Canfu'r Crwner fod asiantaethau'r wladwriaeth wedi canolbwyntio'n ormodol ar brosesau a bod cyfleoedd wedi'u colli i weithredu'n gynt. Cydnabu fod gweithwyr asiantaethau'r wladwriaeth wedi gweithredu hyd eithaf eu gallu, eu bod yn gweithio o dan amgylchiadau eithriadol o anodd a'u bod wedi'u rhwystro gan y ddeddfwriaeth a oedd ar waith ar y pryd.

Rydym yn cydnabod ac yn derbyn canfyddiadau'r Crwner yn y cwestau, ac yn awyddus i roi sicrwydd i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal heddiw fod y gyfraith wedi'i newid o ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiadau trasig hyn er mwyn rhoi mwy o bŵer i ni weithredu'n gyflym a chymryd camau cadarn pan fo angen.

Yn dilyn y digwyddiadau'n ymwneud ag Ymgyrch Jasmine, gwnaed newidiadau sylweddol i wasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio yng Nghymru, yn ogystal â'r ffordd y mae'r rheoleiddiwr, rheoleiddwr yn gweithredu. Llywiwyd y newidiadau hyn gan y gwersi a ddysgwyd o Ymgyrch Jasmine ac argymhellion adolygiad Flynn.

Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd, sef Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, er mwyn rhoi pobl yn gadarn wrth wraidd rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar eu canlyniadau personol a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'n rhoi atebolrwydd am ansawdd y gofal yn gadarn ar y lefel uchaf yn sefydliad y darparwr ac yn galluogi'r rheoleiddiwr i gymryd camau cyflym pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Mae ein ffyrdd o weithio hefyd wedi newid yn sylweddol ers y digwyddiadau hyn, ac mae dulliau newydd o arolygu a llwybr gorfodi blaengar a chymesur wedi'u cyflwyno i sicrhau y cymerir camau yn gyflym pan fydd methiannau mewn gofal. Mae diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal wrth wraidd popeth a wnawn, ac ansawdd gofal yw ein prif flaenoriaeth. Ni fyddwn yn goddef gofal gwael a byddwn yn cymryd camau i amddiffyn pobl pan fo angen.

Rhaid i ni beidio byth â bod yn hunanfodlon, ac rydym yn ymrwymedig i wrando, dysgu a gwella'n barhaus. Felly, byddwn yn cynnal digwyddiadau myfyrio a dysgu gyda'n staff ein hunain a chyda rhanddeiliaid a phartneriaid yn ystod y misoedd i ddod, er mwyn sicrhau na chaiff y gwersi a ddysgwyd o Ymgyrch Jasmine eu hanghofio.

Atodiad

Cyllideb a dadansoddiad

Dyrannwyd cyllideb o £14,263,000 ar gyfer 2020-21.

Cawsom gyllid hefyd i gefnogi'r canlynol:

Y gyllideb a ddyrannwyd i ni ar gyfer 2020-21	£14,263,000
Rhoi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith	£535,453
Datblygu datganiadau hunanasesu gwasanaeth (SASS) a'u rhoi ar waith ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae a gweinyddu'r cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, sef (Cynllun Nani).	£95,001
Cyllid ychwanegol i dalu'n rhannol am gostau cyfreithiol Ymgyrch Jasmine i gefnogi ymateb AGC i gwestau'r Crwner.	£334,000
Cyfanswm y cyllid	**£15,227,454**
Costau	
Costau staff	£13,443,637
Costau nad ydynt yn gostau staff (TG, cyfieithu, teleffoni, teithio a chynhaliaeth ac ati)	£1,768,817
Cyfanswm y costau	**£15,212,454**

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd £13,443,637 wedi cael ei wario ar gostau staff ac roedd £1,768,817 wedi cael ei wario ar gostau nad oeddent yn ymwneud â staff, gyda gweithgarwch arolygu a rheoleiddio yn cyfrif am 84% o gostau staff.

Dadansoddiad o wariant:



Mae 'Arall' yn cyfuno nifer o gostau llai, er enghraifft hyfforddiant staff a chyfathrebu.

Fe wnaethom addasu ein rhaglen ddigwyddiadau, a chynnal 22 o ddigwyddiadau darparwr rhithwir.

Fe wnaethom anfon diweddariadau e-fwletin i darparwyr 200 eleni.

Gwnaethom adeiladu a lansio maes gwybodaeth gwefan COVID-19 gan gynnwys arweiniad i ddarparwyr a cwestiynau cyffredin.

Cafodd hyn 33,575 o ymweliadau erbyn 31 Mawrth 2021.

Cawsom gyfanswm o 492,981 sesiwn ar ein gwefan.

Mae nifer y tanysgrifwyr i'n cylchlythyr dwyieithog allanol wedi codi o 10,417 i 10,749 sy'n drawiadol.

Gwanaeth 20,206 o bobl ymateb i'n negeseuon ar ein sianeli Twitter a Facebook, o gymharu â 22,164 y llynedd.

Cynyddodd ein dilynwyr Twitter gan 578, hyd at 5,910.

Cawsom 631 o ddilynwyr newydd ar ein sianeli Facebook, sy'n codi o 1,645 y llynedd i 2,276 erbyn 31 Mawrth 2021.

0300 7900 126

AGC@llyw.cymru

arolygiaethgofal.cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales